# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 14/09/2021 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Arfon Hughes | Gruffydd Williams | Carys Roberts | Mared Llywelyn Williams |
| Gito Williams | Cai Rees Jones | Pat Humphreys (Clerc) | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Lleucu Jones, Caren Jones, Catrin Roberts, Sharon Williams, Rhys Llewelyn, Janice Evans a Alaw Llewelyn Roberts.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 13/07/2021
   Cofnodion Pwyllgor Brys 27/07/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Rhys Tudur

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim.

5. **Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd – Ail gartrefi yng Nghymru – grwpiau ffocws ar-lein –** Cadeirydd
   Derbyniwyd ebost gan Rhys Jones o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd ynglŷn â sefydlu grwpiau ffocws ar lein i drafod ail gartrefi yng Nghymru yn gofyn os yw rhai o aelodau Cyngor Tref Nefyn hefo diddordeb mewn cymeryd rhan. Gan fod y grwp ffocws cyntaf wedi cael ei gynnal yr wythnos diwethaf fe wnaeth y Cadeirydd fynychu hwnnw ond dim fel cynrychiolydd o Cyngor Tref Nefyn ond fel aelod o Gymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd ac fe eglurodd i'r pwyllgor fod yna drawsdoriad o wahanol bobol wedi mynychu a'u bod yn bwriadu cynnal un arall i'r dyfodol. Enghraifft o'r cwestiynnau oedd yn cael eu gofyn oedd: ydi tai hâf yn niweidiol neu rhywbeth positif? Ac ni atebodd neb ei fod yn bositif ond pawb yn dweud ei fod yn niweidiol ac yna gofynwyd: beth yw'r ateb? Felly dyma'r math o bethau oedd yn cael eu trafod ac fe fydd Pwyllgor Tai'r Senedd yn defnyddio mewnbwn y grwpiau ffocws i wneud casgliad ar dai haf a beth ddylid ei wneud ynglŷn â nhw. Danghosodd 3 aelod o CTN ddiddordeb mewn mynychu'r grwp ffocws nesaf ac mae'r clerc am yrru eu manylion i Rhys Jones.

6. **Dosbarth defnydd ar gyfer tai hâf –** Cadeirydd
   Mae'r Llywodraeth ar fin gwneud peilot i sortio'r tai hâf allan ond nid oes sicrwydd ynglŷn â lle mae nhw am wneud y peilot, mi ellith fod yn Nwyfor ond nid oes cadarnhad o hyn. Y pryder yw fod y peilot yma ddim ond yn mynd i ddelio hefo llety gwyliau yn lle cynnwys tai hâf hefyd ac mae yna ddipyn mwy o dai hâf na llety gwyliau. Mae'r cynghorydd lleol wedi gwneud cynnig flwyddyn diwethaf yn gofyn am cap ar dai hâf a felly efallai ei bod yn amser i ysgrifennu i'r Llywodraeth eto yn eu atgoffa o hyn. Felly y cynnig yw i ysgrifennu llythyr i'r Llywodraeth i'w atgoffa o'r cynnig a

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

basiwyd y llynedd a dweud ein bod yn deallt eu bod ar drothwy peilota ac felly ei fod yn hanfodol eu bod yn treilau dosbarth defnydd i dai hâf.
Penderfyniad: Pasiwyd i yrru'r llythyr i'r Llywodraeth.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Mared Llywelyn Williams

7. **Rhandiroedd y Ddôl –** diweddariad ar y gwaith draenio – Clerc
Cafwyd diweddariad gan y clerc sef ei bod wedi cael cadarnhad gan y contractwr ei fod wedi gorffen y gwaith draenio ac felly wedi gofyn am yr anfoneb. Mae'r anfoneb wedi cael ei anfon ymlaen i Aneurin Môn Parry fel mae telerau y gytundeb yn ei ddatgan ac mae Aneurin Môn Parry wedi cadarnhau y bydd yn ymweld â'r safle i weld y gwaith er mwyn iddo fedru trosglwyddo'r arian i gyfrif CTN ac yna CTN yn gallu talu anfoneb y contractwr. Fe fydd rhaid aros wedyn i weld os yw'r gwaith draenio wedi gweithio ac os yw'r tir yn sychu allan dros fisoedd y gaeaf cyn cynnig y rhandiroedd allan ond os fydd y gwaith wedi bod yn llwyddiannus yna mae posibilrwydd o gynnig y rhandiroedd allan o gwmpas mis Mawrth y flwyddyn nesaf ar ôl aredig y tir.

8. **Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad – Clerc
Cafwyd diweddariad gan y clerc sef ei bod wedi gyrru ebost i Gethin Jones Syrfewr Stadau Cynorthwyol ar y 3ydd o Awst yn atodi cynlluniau o'r estyniad bwriededig ym mynwent Morfa Nefyn ac yn gofyn iddo wneud ymholiad ar ran CTN i'r Adran Gyfreithiol ynglŷn â gwneud cais CPO. Derbyniwyd ebost yn ôl ganddo ar y 20fed o Awst yn cadarnhau ei fod wedi gyrru'r manylion ymlaen i'r Adran Gyfreithiol ac nid oes dim wedi ei dderbyn ers hynny. Mae'r clerc am anfon ebost ato eto yn gofyn am ddiweddariad ar fyrder oherwydd fod y fynwent yn rhedeg allan o le i gladdu, mae'r clerc am anfon manylion Gethin Jones i'r cynghorydd lleol er mwyn iddo fo yrru ebost iddo hefyd.

9. **Adran 115 – Tafarn Y Heliwr, Stryd Fawr, Nefyn –** Cais am drwydded er mwyn darparu cyfleusterau caffi palmant ar y Briffordd.
**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Mared Llywelyn Williams

10. **HSBC – newidiadau i'r cyfrifon banc**– CTN a Bryn Mynach
Derbyniwyd ebost gan HSBC yn dweud fod y math o gyfrifon sydd gan CTN yn newid ac fe fydd ffi misol o £5 ar bob un a ffi am dalu siec allan o 40c y siec o'r 1af o Dachwedd 2021. Mae gan CTN 7 cyfrif yn HSBC felly fe fydd hyn yn golygu £35 y mis o ffioedd ac ar gyfartaledd mae yna rhwng 10 a 15 siec yn mynd allan bob mis felly rhwng £4 a £6 y mis i dalu siec allan. Mae'r clerc wedi bod yn y banc yn gofyn os fydd bob un o gyfrifon CTN yn cael eu newid ac os ydynt oes modd cael cyfrif lle nad oes ffi misol? A'r ateb oedd fod bob un o'r cyfrifon yn cael eu newid ac nad oes cyfrif heb ffi ar gael yn HSBC ac mewn amser fe fydd bob banc arall yn dilyn yr un drefn.
**Penderfyniad**: y clerc i fynd i ofyn i Nat West, Barclays a Lloyds os ydyn nhw hefo cyfrifon heb ffi misol i Gynghorau Tref ac wedyn i'r Is-bwyllgor Ariannol gyfarfod i fynd drwy'r cyfrifon i weld os oes modd lleihau ychydig arnynt a trosglwyddo'r arian i un o'r cyfrifon eraill.

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn –** ebost Bleddyn Prys Jones, Swyddog AHNE Llŷn

Ar ôl trafodaeth ar y mater yma gwnaethpwyd penderfyniad ym mhwyllgor Ebrill 2021 i wrthod Dynodiad Awyr Dywyll i AHNE Llŷn ac yr wythnos diwethaf derbyniwyd ebost gan Bleddyn Jones yn gofyn i CTN rhoi ystyriaeth pellach iddo.
**Penderfyniad:** Nid oes modd trafod yr ebost yma gan fod rheol yn ein Rheolau Sefydlog yn datgan na ellir newid penderfyniad y Cyngor o fewn chwe mis, felly fe fydd y mater yn cael ei roi ar agenda mis Tachwedd a'r clerc i adael i Bleddyn Jones wybod. Hefyd gan fod y rhan fwyaf o'r rhai a bleidleisiodd ar y mater yn absennol heno nid yw'n deg trafod y mater heb iddynt fod yn bresennol.

**12. Ceisiadau Cynllunio**

**C21/0786/42/LL –** Manora, Rhodfa'r Môr, Nefyn – Newid defnydd o dŷ annedd preswyl (Dosbarth Defnydd C3) i sefydliad preswyl (Dosbarth Defnydd C2). Cynigir mân ad-drefnu mewnol, gan gynnwys addasu'r eiddo yn fewnol i gynnwys 4 uned hunangynhwysol yn yr amlen bresennol a throsi garej yn uned hunangynhwysol wedi'i chysylltu â'r prif dŷ.
**Penderfyniad**: Gofyn i'r Adran Gynllunio oedi cyn gwneud penderfyniad er mwyn ymateb i'r pryderon mae CTN yn rhoi gerbron, sef: Wedi edrych ar y cais yma yn fanwl mae CTN yn bryderus ac angen atebion i bryderon cyn gwneud penderfyniad. Y bwriad yw troi'r tŷ yn fflatiau i bobl gyda'g anghenion arbennig ac yn y cynllun datgelir y byddai ymddygiad y trigolion yn 'challenging' felly gofynwn am fwy o wybodaeth am anghenion y trigolion: Pa fesurau diogelwch fyddai mewn lle? O ble y bydden nhw'n dod? Cwmni o Loegr sydd wedi ei brynnu felly nid yw CTN yn teimlo mai yma yw'r lleoliad gorau ar gyfer cartref o'r fath? Oes galw yn lleol am le fel hyn?
**C21/0837/42/LL –** Tŷ Cerrig, Parciau, Mynydd Nefyn – Estyniad i flaen yr annedd a lleoliad carafan statig yn y cefn.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad ond bod amod yn cael ei roi ar y cais cynllunio bod rhaid i liw y garafan weddu i'r cefndir a bod rhaid tirlunio o'i amgylch fel ei fod ddim yn weladwy yn y tirlun gan fod yr ardal yma o fewn yr AHNE.
**C21/0859/42/DT –** Môn Arfon, Lôn Penrhos, Morfa Nefyn – Dymchwel garej presennol ac adeiladu garej newydd.
**Penderfyniad:** Gwrthod - maint a dyluniad y garej bwriededig yn rhy fawr o'i gymharu a'r un presennol.

Ceisiadau Diweddarach
**APP/Q6810/D/21/3281842** – Apêl Tyn y Mynydd, Mynydd Nefyn – Estyniad ochr unllawr.
**Penderfyniad**: Gwrthod - mae yn nodwedd fodern a fydd yn amharu ar adeilad traddodiadol a ddylai gael ei warchod yn unol a pholisiau. Er ei fod yn fach o ran maint mi fydd yn cael effaith niweidiol ar olygfeydd i fewn ac allan o'r AHNE. Mae'r AHNE hefyd yn chwilio am statws Awyr Dywyll ac mi allai'r holl fenestri sydd yn y bwriad yma amharu ar gael y statws yma yn ei le. Mae Llwybr yr Arfordir Cymru yn mynd gyda talcen uchaf yr eiddo ac mae Llwybr Cyhoeddus yn dod i fyny'r cae reit at y ffenestri bwriededig ac felly yn weladwy o bell ac agos. Mae'r bythynod bach yma yn rhan o atyniad yr ardal.
**C21/0889/42/DT –** Gors, Edern – Estyniadau ar ffurf porth ac ystafell haul newydd.
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.
**APP/Q6810/D/21/3282522 –** Apêl Tan y Mynydd , Mynydd Nefyn – Dymchwel storfa allanol bresennol, addasiadau i'r prif dŷ presennol ac estyniadau rhannol unllawr rhannol deulawr i'r ochr a'r cefn i greu rhagor o ofod byw.

**Penderfyniad:** Gwrthod - Ormesol yn y tirlun yma, gor-ddatblygiad, dynodedig sef AHNE gan amharu ar olygfeydd i fewn ac allan o'r AHNE a croes i bolisi Cynllun Unedol Gwynedd. Hefyd cafwyd cais blaenorol ym mis Ionawr 2020 ac mae'r Cyngor Tref yn teimlo nad oes newid o gwbwl yn maint llorweddol y cais yma a'r cais blaenorol. Mae'r AHNE hefyd yn chwilio am statws Awyr Dywyll ac mi allai'r holl fenestri sydd yn y bwriad yma amharu ar gael y statws yma yn ei le. Mae Llwybr yr Arfordir Cymru yn mynd o fewn 50 llath i ffwrdd o'r eiddo ac mae Llwybr Cyhoeddus yn mynd ochor isaf i'r eiddo ac felly yn weladwy o bell ac agos.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1249.69 yn cynnwys oriau ychwanegol o fis Mai i fis Awst
- Nefyn Foods - Rent Siop Siarad - £780.00
- Cyngor Gwynedd – Cyfraniad Toiledau Cyhoeddus Nefyn a Morfa Nefyn - £12,000.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Roberts Hicks - £400.00
- John Gwynor Jones – Angladd John David Jones - £70.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Michael Stephen Coles - £450.00
- John Gwynfor Jones – Angladd Eustratia Davies - £400.00
- E-On Next – Trydan Siop Siarad mis Gorffennaf ac Awst - £92.00
- Designer Signs – Arwyddion traeth Nefyn - £212.40
- Designer Signs – Arwyddion Parc y Ddol - £60.00
- D. M. Parry – Pedwerydd taliad mynwent Morfa Nefyn & ail daliad mynwent Penniel - £305.00
- Npower – Trydan Llyfrgell mis Awst - £136.55
- Cliff Hughes – Taliad 5 cytundeb llwybrau & gwaith ychwanegol - £1722.62
- Ashley Hughes – Offer swyddfa - £10.20
- Argraff – cynnal a chadw'r wefan - £150.00
- Gareth Williams - Ffens 'V Mesh' a giat i Ysgol Feithrin Nefyn (a basiwyd ym mhwyllgor Ebrill 2021) - £2200.80
- Cyngor Gwynedd – Archwiliad Mewnol 2020-2021 - £312.00

Penderfyniad: Talu pob anfoneb

Cynnig: Rhys Tudur  Eilio: Arfon Hughes

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- Dewi Parry Thomas – Angladd Ceinwen Evans - £680.00
- Ifan Hughes – Angladd Elizabeth Parry - £815.00
- Ifan Hughes – Angladd Jane Eluned Roberts & Ellen Gwyneth Evans - £1330
- G. W. Parry – Angladd Laura Catherine Williams - £680.00
- Cyngor Gwynedd – Praesept - £38625.00

**Aelodau Nefyn yn unig – Maes Parcio Y Ddôl Nefyn – ebost 'di-enw'**

Derbyniwyd ebost 'di-enw' yn cwyno fod ceir hefo 'SORN' arnynt yn cael eu gadael ym maes parcio Y Ddôl, Nefyn ac yn mynd a lle ceir perchnogion y tai cyfagos sydd angen parcio yna. Mae'r clerc wedi cael hyd i gynllun yn dangos mai Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y maes parcio yma felly mae'r clerc am basio'r

wybodaeth ymlaen i'r ebost 'di-enw'. Mae'r aelod lleol hefyd wedi pasio'r gwyn ymlaen i Gwenan Thomas, Adran Meusydd Parcio, Cyngor Gwynedd ac wedi gofyn i O Ddrws i Ddrws gysidro parcio eu cerbydau nhw ym maes parcio Glan y Pwll Nefyn fel eu bod yn rhyddhau mwy o le parcio i drigolion Nefyn ac yn gofyn i'r clerc basio'r neges yma ymlaen i'r ebost 'di-enw' hefyd.